
# Newyddion Bethlehem



www.gwe-bethlehem.org Gwaelod-y-garth Rhifyn Ionawr/Chwefror 2012




## 140 eleni!

Craffwch ar y plac sydd uwchben drws y capel ac fe welwch i'r adeilad gael ei godi yn y flwyddyn 1872. Felly, mae'r capel yn 140 eleni!
Dichon y cawn glywed mwy am hyn yn ystod y flwyddyn!

### Gwahoddiad i ni gyd lanw ...

# Papur y Pasg




**Dalen lân ydi hi. Dalen fel yr eira gwyn na syrthiodd hyd ddiwedd Ionawr eleni yn yr ardal hon. Dalen lân fel traeth y bore heb ôl traed neb arno.**
Y bwriad yw fod **pob un aelod**, gan gynnwys y plant a'r bobl ifanc, yn cymryd darn o bapur ac yn ysgrifennu arno eich hoff ddyfyniad am y Pasg. Hwyrach y byddwch chi'n dewis dyfyniad am Sul y Blodau, y Swper Olaf neu'r Groglith. Hwyrach mai yr Atgyfodiad a'r bedd gwag fydd yr atyniad. Mae'n bwysig i ddiben yr ymarfer hwn, waeth pa mor flêr, fod y dyfyniad **yn eich llawysgrifen** chi. Gall fod yn adnod/au, yn bennill o emyn neu'n emyn cyfan, yn gwpled, yn englyn, yn gywydd, yn ddarn o gerddoriaeth wedi ei gopïo ... Beth bynnag sy'n apelio atoch chi. Chi sy'n cael dewis. Felly, os gwelwch yn dda, bwriwch ati.
Mae Sul Y Pasg eleni ar Ebrill 8fed. Y bwriad yw casglu'r dyfyniadau y byddwch chi wedi eu hysgrifennu **cyn diwedd mis Mawrth**. Yna fe fyddwn ni yn gosod yr holl ddyfyniadau a dderbynnir hyd waliau'r festri ac ni fydd brys i'w tynnu i lawr. Fe geir cyfle teg i bawb sy'n dod i'r festri i ddarllen y dyfyniadau ac, wrth eu darllen, i fyfyrio ar neges Y Pasg.
Felly, cymrwch ddarn o bapur (mae stoc wedi ei adael yng nghyntedd y capel os mynnwch), chwiliwch am ddyfyniad am Y Pasg. Ysgrifennwch hwnnw ar y papur a'i ddychwelyd, **heb roi eich enw wrtho,** i'r amlen yn y cyntedd neu i un o swyddogion Bethlehem mewn da bryd. Nid cystadleuaeth mo hyn ond cyfle i chi rannu profiad Y Pasg gyda'ch cyd-aelodau.

**R Alun.**



Tybed pwy oedd y rhain?




*Dwy ledi. Dwy ledi barchus yr olwg. A dwy ledi fu'n rhaid sefyll yn berffaith llonydd am eiliadau lawer rhag amharu ar lygad y camera. O'u gwisg, roedd y ddwy ledi'n byw ganrif go dda yn ôl. Y cwestiwn yw, pwy yw'r ddwy? Gan fod y lluniau wedi dod i'n sylw gan Gordon Beech mae'n bur debyg fod y ddwy yn llinach teulu enwog y Phillipiaid, Gwaelod-y-garth a'u bod yn aelodau ym Methlehem ar ryw adeg. Mae gwobr i'w chael (yn y nefoedd) am eu henwi.*



**(chwith)** Yr aelodau fu'n cynnal gwasanaeth carolau yng Nghartref Preswyl Dyffryn Ffrwd, Nantgarw.

**(isod)** Côr Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth yn y Gwasanaeth Plygain, nos Sul, Ionawr 8fed, 2012.





## Cyfeiriadau:


__Gweinidog:__ **Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,**
***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
__Ysgrifennydd:__ **Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 , ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk




**(uchod)** Rhan o gynulleidfa oedfa'r Plygain. Yn ystod y gwasanaeth, dyfynnodd Rhodri rai ffeithiau ddaeth drwy law Yr Athro Peter Wyn Thomas am Blygain yng Ngwaelod-y-garth ym 1843. Hwyrach y cawn ni glywed rhagor cyn y Plygain nesaf.

**(chwith)** Parti'r Eglwys Newydd yn ei morio hi yn Y Plygain.
















Unwaith eto, cast amryddawn Bethlehem yn cyflwyno ... “Bethlehem 2”
(gydag ymddiheuriadau i bawb sydd heb eu cynnwys yn y lluniau!)





A diolch i’r awdur/gynhyrchydd, Heulwen Jones, ac i bawb fu’n helpu i lwyfannu’r cyfan.



**I'r Dyddiadur:**

**Bore Iau, Mawrth 1**
Cwrdd gweddi
Gŵyl Ddewi
*am 9.30 y bore*

***Nos Iau, Mehefin 21:***
Cyfarfod Blynyddol
Chwiorydd
Talaith y De
*Betsan Powys yn annerch*
*a bydd*
*Mrs Bethan Thomas*
*yn trosglwyddo'r awenau i*
*Mrs Eirlys Davies, Radur.*

***Nos Sul, Gorffennaf 15***:
Swper Haf
Bethlehem
*am 5.00 o'r gloch*
*cyflwyno siec yr elusen am eleni*

# Suliau 2012

**MAWRTH**
4 Oedfa Gwyl Ddewi -
(Gwledd o Gawl i ddilyn yn y Festri)
11 Y Parchg. R. Alun Evans
18 Gwasanaeth Ardal -
(Gorllewin Caerdydd)
25 Y Parchg. R. Alun Evans

**EBRILL**
1 Y Parchg. Jeff Williams
8 Y Parchg. R. Alun Evans
15 Gwasanaeth Ardal - Pentyrch
22 Y Parchg. R. Alun Evans
29 Y Parchg. Robin Samuel

**MAI**
5 Y Parchg. Watcyn James
13 Y Parchg. R. Alun Evans
20 Sul Cymorth Cristnogol
27 Y Parchg. Aled Edwards

**MEHEFIN**
3 Y Parchg. Ieuan Davies
10 Y Parchg. R. Alun Evans
17 Gwasanaeth Ardal -
(Gogledd a Dwyrain Caerdydd)
24 Y Parchg. R. Alun Evans



***(uchod)*** *Bedydd Dafydd Caio Gomer Davies, mab Rhodri a Carys, ar Ionawr 8fed.*
***(isod)*** *Bedydd Lea Mai Walters, plentyn David a Luned (Clement gynt) ar Chwefor 12.*



**Croeso i aelodau newydd!**



*Menna Bassett, Pentyrch, (ar y dde) ac Esther Laugharne, (gynt o'r Wyddgrug, nawr Y Bae), dderbyniwyd yn aelodau ar Chwefror 12.*



***Llongyfarchiadau i Esyllt Dafydd a Guqulisizwe Dlamini ar eu priodas cyn y Nadolig. Mae Esyllt yn ferch i Dafydd a June Huws, Gwaelod-y-garth, ac mae Doc, fel y'i gelwir, yn wreiddiol o Bulawayo yn Zimbabwe. Pob dymuniad da i'r ddau.***

**Rydyn ni'n Cydymdeimlo â**

... **Sandra Rose** a'r teulu, Georgetown, ar farwolaeth mam Sandra, Mrs Olwydd James, yn Hendy-gwyn ar Daf.
... **Meinir Rees** a'r teulu, Meisgyn, ar golli ei mam, Mrs Joyce Irene James.
... **Heulwen Jones**, sydd wedi colli ei modryb.

**Gwellhad Buan**

... i **Ffiona Morgan,** Gwaelod-y-garth ar ôl ei llawdriniaeth cyn y Nadolig.
... **Ken Passmore**, Radur, ar ôl ei driniaeth lawfeddygol
... **Byron Edwards**, Creigiau, ar ôl torri ei asennau.
... **Vi Jones**, Pentyrch, ar ôl ei thriniaethau ddiweddar.
**...** hefyd i un o'n trysoryddion, **Peredur Evans**, sydd wedi cael triniaeth yn ddiweddar.

**Anfonwn ein cofion at**

... **Gordon Beech** a **Catherine Phillips**, Ffynnon Taf, flwyddyn er colli gwraig a mam, y ddiweddar Mrs Ann Beech.
...**Carol Davies**, Pentyrch, wedi i'w mam fod yn yr ysbyty a'i brawd gael damwain ddrwg.
... **Rhodri a Haf Tilsley** a Garmon ac Anna Fflur yn eu cartref newydd (dros dro) yn Danescourt.